

# DINAS BANGOR CITY












CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

bid
BANGOR MEWN BUSINES
BANGOR MEANS BUSINESS

Photography / Lluniau: Martin Lyons, Wales On View, Prifysgol Bangor University

# BYDDWCH YN RHAN O FANGOR

Croeso i Fangor, y **Ddinas gyfeillgar** ar arfordir Gogledd Cymru. Bach o ran maint ond yn llawn cymeriad o ganlyniad i'r **cymysgedd unigryw sy'n cynnwys yr iaith Gymraeg, y diwylliant Cymreig, ein hanes morwrol** a'r ymwelwyr o bob cwr o'r byd sy'n dewis dod yma i aros ac astudio.

---

Wedi ei gefeillio gyda dinas Soest yn yr Almaen ers 1973, mae Bangor yn lle gwych i ddarganfod pethau newydd. Dewch i ymweld â bedd tywysog canoloesol yn ein Heglwys Gadeiriol, dewch i bysgota oddi ar yr ail bier mwyaf yng Nghymru, siopa ar stryd fawr hiraf Cymru, mwynhau dramâu yn y ganolfan Celfyddydau ac Arloesi, neu beth am fwrw golwg ar y golygfeydd godidog o'n cwrs golff 18 twll ar lethrau'r bryniau cyfagos? Mae cymaint i'w wneud ym Mangor a llawer iawn mwy i'w fwynhau yn Eryri ac ar hyd ein harfordir anhygoel. Mentrwch draw i weld pam fod Lonely Planet wedi nodi mai Gogledd Cymru yw'r 4ydd rhanbarth gorau yn y byd i ymweld ag o.



# BE A PART OF BANGOR



Welcome to Bangor, the **friendly city** on the North Wales coast. Though small in size, we're **big on character**, thanks to our unique mix of **Welsh language and culture**, our seafaring heritage and the visitors from all over the world who come here to stay and study.

Twinned with the German city of Soest since 1973, Bangor is a great place to discover new things. Visit the tomb of a medieval prince in our Cathedral; fish off the second-longest pier in Wales; go shopping on Wales' longest high street; feel the drama at the arts centre, or catch the stunning views from our 18-hole hilltop golf course. There's so much to do in Bangor, and a whole lot more to explore in Snowdonia and along our gorgeous coastline; come and discover why Lonely Planet rates North Wales as the 4th top region in the world to visit.

# DEWCH DRAW







Mae llawer o bethau **annisgwyl i'w gweld a'u gwneud yma**. Mae hanes Bangor yn ymestyn yn ôl at y Chweched Ganrif, pan adeiladodd Sant Deiniol ei fynachlog yma ar safle'r Eglwys Gadeiriol heddiw. Ymhlith y **safleoedd hanesyddol gwych** eraill y dylech fwrw golwg arnyn nhw y mae tŵr cloc Edwardaidd, Porth Coffa, pier Fictoraidd a dwy bont fyd-enwog o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Dewch i ddarganfod hanes diwydiannol Bangor yng Nghastell Penrhyn, plas y teulu Pennant, penaethiaid diwydiant llechi yr oes a fu. Hefyd, beth am ymweld â harbwr hanesyddol Porth Penrhyn, a oedd ar un adeg yn un o brif fannau allforio llechi i'r byd? Gallwch droedio neu feicio ar hyd Llwybr Arfordir Cymru, rhoi cynnig ar wifren wib fwyaf Ewrop neu roi esgidiau cerdded am eich traed a throedio bryniau, mynyddoedd, coedwigoedd a llynnoedd Parc Cenedlaethol Eryri dafliad carreg i ffwrdd o Fangor. Mae digonedd i ddifyrru ein hymwelwyr ifanc hefyd gydag amrywiaeth o weithgareddau ac atyniadau i'r teulu oll ynghyd â sawl traeth Baner Las ar hyd ein harfordir. Gyda chymaint i'w wneud a digonedd o lety ym Mangor a'r ardal, beth am ddod draw i aros?


# COME ON OVER





We've lots of **surprising things to see and do here**. Bangor's history stretches back to the sixth-century when Saint Deiniol built his monastery on the site of today's Cathedral. Other **fascinating historic sites** to see include a Grade II-listed Edwardian clock tower, the Memorial Arch, the Victorian pier, and two iconic nineteenth-century bridges.

Discover Bangor's industrial heritage at Penrhyn Castle, seat of the Pennant family slate industry magnates, and visit the historic harbour of Porth Penrhyn, once a major exporter of slate. Outdoors, you can walk or bike the Wales Coastal Path, try a range of watersports, have a go on Europe's longest zip line; or get your hiking boots on and explore the hills, mountains, forests and lakes of Snowdonia National Park, right on our doorstep. There are lots of things to keep our youngest visitors happy too, with family-friendly activities and attractions, and lots of Blue Flag beaches along our coastline. With so much to do, and accommodation of every type in and around Bangor, why not stay over?



SIOPA | RETAIL

# MWYNHEWCH Y WEFR








Mae canol dinas Bangor yn lle **gwych ar gyfer cymysgedd o siopau annibynnol** a ffefrynnau adnabyddus y Stryd Fawr. Mae'r siopau sydd yma'n gwerthu pob math o bethau, **o gynnyrch bwyd i ffasiwn** ac mae yma ddigonedd o **siopau coffi a bwytai** os hoffech chi damaid i'w fwyta.

Mae oriel y ddinas, Storiel, yn gwerthu crefftau cyfoes unigryw wedi eu gwneud gyda llaw nad oes modd eu prynu yn unman arall. Hefyd, mae ardal Bangor Uchaf yn cynnig ystod o siopau bach a difyr, caffis a thafarndai. Mae digonedd o archfarchnadoedd hwylus yng nghanol y ddinas yn ogystal ag uwchfarchnadoedd ar gyrion y Ddinas. Mae'n hawdd iawn cyrraedd Bangor ar ffordd ddeuol yr A55, ac mae digon o lefydd parcio cyfleus yma. Neu beth am ddefnyddio'r gwasanaethau bws a thrên rheolaidd er mwyn cyrraedd y ddinas?

# TREAT YOURSELF TO SOMETHING AWESOME











Bangor's busy City centre is the **place to go** for a mix of **independent shops** and big high street favourites. The shops here sell **everything from food to fashion**, and there are plenty of **coffee shops and restaurants** for a pit stop.

The City's art gallery, Storiel, sells unique handmade contemporary crafts that you won't find anywhere else, while the student hub of Upper Bangor is home to a range of small and interesting shops, cafés and bars. There are lots of handy supermarkets dotted about the centre, and at the edge of the City you'll find the big superstores. Bangor is just off the A55 Expressway, and there are frequent train and bus services, and convenient parking, so getting here is easy.






1 Canolfan Brailsford Centre
2 Gorsaf Trên Train Station
3 Prifysgol University
4 Pontio
5 Porth y Gofeb Memorial Arch
6 Storiel
7 Cofeb Rhyfel War Memorial
8 Cadeirlan Cathedral
9 Llyfrgell Library
10 Canolfan Siopa Deiniol Deiniol Shopping Centre
11 Gorsaf Bws Bus Station
12 Cloc Clock
13 Cae Chwaraeon Playing fields
14 Canolfan Nofio/ Pwll Padlo Swimming Pool/ Paddling Pool
15 Camp Rhufeinig Roman Camp
16 Pier Pier
17 Cae Chwaraeon Playing fields
18 Cae Bowlio Bowls Field
19 Cae Golff Golfing Field
Lôn Unffordd One Way Street
PO Swyddfa Post Post Office
P Maes Parcio Car Park
Eglwys Church
Mosg Mosque
Canol Dinas City Centre
Llwybr Beicio Cycle Path Lôn Las Ogwen

# BANGOR AR WAITH


Yng nghanol **golygfeydd mwyaf godidog Prydain**, mae Bangor yn lle delfrydol i fyw ond mae hefyd yn lle **gwych i weithio a chynnal busnes**. Gyda'i chysylltiadau **trafnidiaeth hwylus**, mae'r Ddinas yn fan perffaith i fod y **brif ganolfan fusnes** ar gyfer y rhanbarth cyfan ac mae'n hawdd ei chyrraedd o Lerpwl a Manceinion, gyda gwasanaeth trên cyflym a rheolaidd i Lundain yn ogystal.

Yn y Ddinas ei hun, mae Canolfan Rheolaeth y Brifysgol, sy'n cynnig ystod o gyfleusterau busnes a chynadledda ynghyd â gwesty ar y safle i bobl sy'n dymuno aros dros nos. Hefyd, ceir Pontio, Canolfan Celfyddydau ac Arloesi y Brifysgol, sy'n cyfuno busnes a diwydiant ynghyd â'r gorau o fyd ymchwil prifysgol ac arloesedd. Ar gyrion y Ddinas, mae parc busnes Parc Menai, sy'n cynnig amgylchedd weithio modern mewn lleoliad anhygoel. Hefyd, y tu hwnt i Bont Menai, mae M-Sparc sef Parc Gwyddoniaeth cyntaf Cymru.





# GET DOWN TO WORK



Surrounded by some of the UK's most **stunning scenery**, not only is Bangor a wonderful place to live, it's also a **great place to work and do business**. With its **easy transport links**, the City is perfectly located to serve as the **main business hub** for the whole region, and is within easy reach of Liverpool and Manchester, with regular fast rail services to London.

In the City itself, the University's Management Centre has extensive business facilities and an on-site hotel for overnighters; while Pontio is home to the University's Arts and Innovation Centre which brings business and industry together with the very best in university research and innovation. On the edge of the City you'll find Parc Menai business park, a modern working environment with a glorious rural backdrop, and just beyond Menai Bridge you'll find M-Sparc, Wales' first dedicated Science Park.





Atyniad diweddaraf Bangor ydi Pontio, y ganolfan **Celfyddydau ac Arloesi** a gaiff ei rhedeg gan y Brifysgol. Mae'n cynnal cymysgedd **cyffrous o atyniadau gan gynnwys theatr, dawns, syrcas, comedi, sinema a gwledd o gerddoriaeth o bob math.**

Beth am groesi'r ffordd i Storiel, sef amgueddfa ac oriel gelf y Ddinas? Yma ceir arddangosfeydd amgueddfa a chyfresi amrywiol o weithiau artistiaid lleol a rhyngwladol a gaiff eu diweddaru'n rheolaidd ym mannau arddangos yr oriel. Os am fwrw golwg ar gelf gyda mymryn o hanes ynghlwm ag o, ewch i Gastell Penrhyn i brofi un o brif gasgliadau Cymru o gelf glasurol; yn eu plith, tirluniau a phortreadau o'r unfed ganrif ar bymtheg a'r ail ganrif ar bymtheg. Mae'r Ddinas yn le delfrydol i chi fwynhau eich hun gyda'r nos, gyda digonedd o farrau, tafarndai a chlybiau yng nghanol Bangor ac ym Mangor Uchaf. Mae hefyd arlwy reolaidd o gerddoriaeth fyw a digwyddiadau perfformio ar hyd a lled y Ddinas. Os ydych chi'n chwilio am le i gael pryd o fwyd, mae dewis eang o dafarndai, bwytai a bistros traddodiadol ym Mangor, ynghyd â llefydd eraill difyr i fwyta yn y rhanbarth, gan gynnwys un bwyty sy'n meddu ar seren Michelin.






# A FEAST OF CULTURE

Bangor's newest addition is Pontio, the **vibrant arts and innovation centre** run by the University, which attracts an **exciting range of events including, theatre, dance, circus, comedy, cinema and a wide variety of music.**

Over the road at Storiel, the City's museum and art gallery, you'll find museum exhibitions and a regularly-changing, wide-ranging programme of exhibitions by local and international artists showcased across the gallery's exhibition spaces. For art with a bit of history, Penrhyn Castle is home to one of Wales' top collections of classic art, which includes sixteenth and seventeenth-century landscapes and portraits. The City has a colourful night scene, with busy bars, pubs and clubs in the City centre and Upper Bangor, plus regular live music and performance events across the City. For eating out there's a great choice of traditional pubs, restaurants and bistros in Bangor, plus lots of other interesting places to eat across the region, including one with a Michelin Star.





# DINAS DYSG



Mae Prifysgol Bangor yn **rhan ganolog o fywyd y Ddinas** ac wedi bod felly ers ei sefydlu ym 1884. Erbyn hyn, mae dros **11,000 myfyriwr o dros 90 o wledydd** yn dod yma i astudio ac mae'r boblogaeth amrywiol a ddaw yn sgil hynny yn golygu fod y Ddinas yn hyd yn oed yn **fwy atyniadol**.

Mae'r Brifysgol yn cynnig amrediad eang o gyrsiau gan gynnwys gwyddoniaeth, peirianneg, busnes, y celfyddydau a'r dyniaethau, iechyd ac addysg. Mae ganddi enw rhagorol am safon ei dysgu, ei gwaith ymchwil a boddhad ei myfyrwyr. Mae yno adnoddau gwych gan gynnwys neuaddau preswyl newydd, Undeb Myfyrwyr gweithgar dros ben, canolfan chwaraeon - Canolfan Brailsford - sy'n cynnig cyfleusterau chwaraeon a hamdden i fyfyrwyr, staff ac ymwelwyr. Mae coleg addysg bellach Bangor, Coleg Menai, yn cynnig ystod o gyrsiau ar ddau safle yn y Ddinas. Mae'r coleg hefyd yn cynnig nifer o gyrsiau addysg uwch ar y cyd â'r Brifysgol.



ADDYSG | EDUCATION

# THE CITY OF LEARNING

Bangor University is an **integral part of City life**, and has been since it was founded in 1884. These days over **11,000 students from over 90 countries** come here to study, and our diverse student population really adds to the City's **vibrancy**.

The University offers a wide range of courses including science, engineering, arts and humanities, health and education. It has an excellent reputation for its student experience, achieving the highest ratings for teaching excellence, research excellence and student satisfaction. A recent makeover has brought new accommodation, new Students' Union offices and teaching spaces at Pontio, and the redevelopment of Canolfan Brailsford sport centre which offers sport and recreation facilities to students, staff and visitors. Bangor's further education college, Coleg Menai, provides a range of courses across two sites in the City and delivers a number of higher education courses in collaboration with the University.





